

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 2 – Y Senedd

<http://senedd.tv/cy/4839>

Dyddiad: Dydd Mercher, 13 Mehefin

2018

Amser: 09.01 – 11.46

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Simon Thomas AC (Cadeirydd) Neil Hamilton AC Mike Hedges AC Jane Hutt AC Nick Ramsay AC David Rees AC
Tystion:	Huw Irranca-Davies AC, Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol Owain Lloyd, Llywodraeth Cymru Faye Gracey, Llywodraeth Cymru Julie Morgan AC Dr Grahame Guilford, y Panel Sector Gwyddorau Bywyd Sioned Evans, Llywodraeth Cymru Dr Tim Peppin, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Rob Stewart, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Staff y Pwyllgor:	<p>Bethan Davies (Clerc)</p> <p>Leanne Hatcher (Ail Clerc)</p> <p>Georgina Owen (Dirprwy Clerc)</p> <p>Owen Holzinger (Ymchwilydd)</p> <p>Christian Tipples (Ymchwilydd)</p> <p>Gareth David Thomas (Ymchwilydd)</p>
-------------------	--

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Steffan Lewis AC.

2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 PTN1 – Llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol at y Cadeirydd – Ymchwiliad i'r paratodau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru – 21 Mai 2018

2.2 PTN2 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol at y Cadeirydd – Dathlu 10 mlynedd o Ddatganoli Pwerau Cyllidol – 24 Mai 2018.

2.3 PTN3 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol – Dathlu 10 mlynedd o Ddatganoli Pwerau Cyllidol – 25 Mai 2018.

2.4 PTN4 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid – Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru): Fframwaith Cyllidol – 4 Mehefin 2018

2.5 PTN5 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid – Goblygiadau ar gyfer Cyllidebau 2019–2020 a 2020–2021 – 7 Mehefin 2018

3 Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru): sesiwn dystiolaeth

3.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Huw Irranca-Davies AC, y Gweinidog dros Blant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol; Owain Lloyd, Dirprwy Gyfarwyddwr, Adran Gofal

Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru; a Faye Gracey, Pennaeth Dadansoddi Polisi, Llywodraeth Cymru ar y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru).

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 5, 9 ac 10

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

5 Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru): Trafod y dystiolaeth

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

6 Ymchwiliad i'r paratodau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 1 (Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru)

6.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Julie Morgan AC, Cadeirydd Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru; Dr Grahame Guilford, Llysgennad Cyllid yr Undeb Ewropeaidd; a Sioned Evans, Prif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar ei ymchwiliad i'r paratodau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru.

7 Ymchwiliad i'r paratodau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)

7.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Cynghorydd Rob Stewart, Arweinydd Cyngor Abertawe a Dirprwy Arweinydd a llefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Ddatblygu Economaidd, Ewrop ac Ynni; a Tim Peppin, Cyfarwyddwr Adfywio a Datblygu Cynaliadwy Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ei ymchwiliad i'r paratodau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru.

8 Ymchwiliad i'r paratodau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 3 (Dr Hywel Ceri Jones)

8.1 Cafodd sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor gyda Dr Hywel Ceri Jones, Cyn-lysgennad Cyllido'r UE ei chanslo oherwydd salwch. Yn lle hynny, cyflwynodd Dr Hywel Ceri Jones [dystiolaeth ysgrifenedig](#) i lywio ymchwiliad y Pwyllgor.

9 Ymchwiliad i'r paratodau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru: Trafod y dystiolaeth

9.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

10 Ymchwiliad i'r tanwariant sy'n deillio o Benderfyniadau'r Bwrdd Taliadau: Trafod ymateb Comisiwn y Cynulliad

10.1 Nododd y Pwyllgor ymateb Comisiwn y Cynulliad a chanlyniad adolygiad y Bwrdd Taliadau o gefnogaeth staffio i'r Aelodau.